
www.umaber.co.uk/etholiadau
#ETHOLIADAUABER

# ETHOLIADAU 2025-26

## CANLLAWIAU ar gyfer YMGEISWYR






# CYNNWYS


PAM YMGEISIO MEWN ETHOLIAD? 3

DYDDIADAU PWYSIG – IS-ETHOLIADAU'R HYDREF 5

DYDDIADAU PWYSIG – ETHOLIADAU'R SWYDDOGION 6

DYDDIADAU PWYSIG – IS-ETHOLIADAU'R GWANWYN 7

ACADEMI'R YMGEISWYR 8

RHAGWYBODAETH AR GYFER YMGEISWYR 8

SUT I YMGEISIO

DWYIEITHRWYDD 9

SUT MAE UNDEB Y MYFYRWYR YN GWEITHIO? 10

CEFNOGAETH I LWYDDO 10

ROLAU SYDD AR GAEL 11

ROLAU'R SWYDDOGION LLAWN-AMSER 11

ROLAU SWYDDOGION GWIRFODDOL 12

SWYDDOGION CYFADRAN 15

CYNRYCHIOLWYR I GYNADLEDDAU UCM 18

RHEOLAU A CHANLLAWIAU'R ETHOLIAD 19

PLEIDLEISIO 2

CANLYNIADAU 0

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL YR ETHOLIAD? 22

22

23



# PAM YMGEISIO MEWN ETHOLIAD?

Helo bawb! Fy enw i yw Trish-

Felly ... Pam ddylech chi sefyll mewn etholiadau eleni? I fod yn onest, dyma un o'r swyddi gorau y bydd gennych chi yn ystod eich bywyd; byddwch yn cael cyfle i gynrychioli llais myfyrwyr a sicrhau newidiadau sy'n golygu cryn lawer i chi.

Dan arweiniad myfyrwyr, a gyda chymorth tîm o staff, mae Undeb y Myfyrwyr am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr a bod yn barod am unrhyw beth. Rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod myfyrwyr Aber yn cael taith myfyrwyr anhygoel, eu bod yn hapus, yn iach a bod ganddyn nhw'r pŵer i newid pethau. Hyn oll gan ffurfio ambell gyfeillgarwch fydd yn parhau a pharatoi at ddyfodol disglair.

Rydyn ni'n gwneud hyn mewn sawl ffordd wahanol; yn bennaf drwy gyfleoedd, cynrychioli barn myfyrwyr a darparu cyngor a chymorth. Un o'r ffyrdd allweddol y byddwn yn gwneud hyn yw drwy ethol myfyrwyr fydd yn siarad ar eich rhan ac yn gweithio drosoch chi ar amrywiaeth o faterion. Hefyd, ynghyd â'r swyddogion llawn-amser a'r staff, byddant yn llunio gwaith UMAber.

Mae amrywiaeth o rolau ar gael, gan ddibynnu ar eich diddordebau, ac maent i'w gweld yn nes ymlaen yn yr arweiniad hwn, ynghyd â'r amryw o fanteision sy'n perthyn i sefyll etholiad.

Felly, os ydych chi'n frwdfrydig am agwedd benodol ar fywyd myfyrwyr ac am leisio'ch barn; Neu os ydych chi'n teimlo bod modd i chi helpu i gyfrannu a gwella dealltwriaeth yr Undeb o grwpiau penodol o fyfyrwyr

Sefwch yn Etholiadau'r UM! Coeliwch fi, hwn fydd y penderfyniad gorau a wnewch!Pob lwc!

Trish McGrath



# Undeb Aber Strategaeth

Datblygwyd strategaeth UMAber ar gyfer 2017-2020 yn dilyn ymgynghori helaeth â myfyrwyr yn 2017 ac ymchwilio i arfer gorau yn sector yr undebau myfyrwyr. Rydym yn hyderus y bydd ein gweledigaeth a'n haddewidion at y dyfodol yn helpu myfyrwyr Aber i garu bywyd fel myfyrwyr ac rydym yn edrych ymlaen at weld UMAber yn tyfu i fod yn fudiad anhygoel y gall ein myfyrwyr, ein staff a'n prifysgol fod yn falch ohono.

**CENNAD**

Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber **garu bywyd myfyrwyr**

**GWELEDIGAETH**

Dylai myfyrwyr Aber fod yn **hapus**, yn **iach** ac wedi'u **grymuso**, gyda **dyfodol disglair** a **chyfeillgarwch sy'n para am oes**.

**ADDEWIDION**

- Byddwn yn darparu cyfleoedd i chi ddod o hyd i'ch **cymuned Aber**
- Byddwn yn **ddylanwad cadarnhaol** dros fyfyrwyr
- Byddwn yn rhoi cymorth i chi fod yn **hapus** ac yn **iach**
- Byddwn yn helpu i dyfu eich **sgiliau** a'ch **profiadau**

**GWERTHOEDD**

- Rydyn ni'n cael ein **llywio gan fyfyrwyr** – Eich llais chi sy'n cyfrif fwyaf
- Rydyn ni'n **gymuned** – Rydyn ni am i chi gyfranogi
- Rydyn ni'n **dryloyw** – Rydyn ni bob amser yn onest ac yn agored
- Rydyn ni'n **uchelgeisiol** – Rydyn ni'n datblygu ar gyfer y dyfodol
- Rydyn ni'n **caru'r Gymraeg** – Rydyn ni'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru



# DYDDIADAU PWYSIG – IS-ETHOLIADAU'R HYDREF

Etholiadau ar gyfer rolau Swyddogion Gwirfoddol

| | |
|---|---|
| CYFNOD SEFYLL YN AGOR | 22 MEDI 2025 10:00 |
| CYFNOD SEFYLL YN CAU | 10 HYDREF 2025 12:00 |
| BRIFFIO AR GYFER YMGEISWYR | 10 HYDREF 2025<br>Picturehouse UM<br>18:00-19:00 |
| PLEIDLEISIO'N AGOR | 21 HYDREF 2025 10:00 |
| PLEIDLEISIO'N CAU | 23 HYDREF 2025 12:00 |
| CANLYNIADAU | 23 HYDREF 2025<br>trwy Wefan Undeb y Myfyrwyr6PM |



# DYDDIADAU PWYSIG – ETHOLIADAU'R SWYDDOGION

Etholiadau ar gyfer rolau Swyddogion Llawn-amser a Swyddogion Gwirfoddol.

| | |
|---|---|
| CYFNOD SEFYLL YN AGOR | 26 Ionawr 2026 10:00 |
| CYFNOD SEFYLL YN CAU | 23 Chwefror 2026 12:00 |
| BRIFFIO AR GYFER YMGEISWYR | 23 Chwefror 2026<br>Picturehouse UM<br>18:00-19:00 |
| DYDDIAD CAU AR GYFER CYHOEDDUSRWYDD | 25 Chwefror 2026 |
| PLEIDLEISIO'N AGOR | 16 Mawrth 2026 10AM |
| PLEIDLEISIO'N CAU | 20 Mawrth 2026<br>12:00 |
| CANLYNIADAU | 20 Mawrth 2026<br>19:00 Prif Ystafell UM |

# Etholiadau'rUM: Sesiynau Gwybdoaeth

**Etholiadau'r UM: Sesiynau Gwybdoaeth** yw eich cyfle chi i ganfod popeth rydych chi angen ei wybod ynglŷn â'r gwahanol rolau swyddogion llawn- amser a gwirfoddol. Byddwn yn amlinellu sut mae Undeb y Myfyrwyr yn cael ei arwain gan y rolau hyn a'r gwahaniaethau rhwng pob rôl. Byddwn hefyd yn sôn am y dyddiadau allweddol i gyd a ffeithiau am yr etholiadau; yn y bon mae'n gyfle anffurfiol i ofyn cwestiynau i'r swyddogion cyfredol a'r staff ategol profiadol.

Mae croeso i holl fyfyrwyr Aberystwyth fynychu sesiynau Etholiadau'r UM: Sesiynau Gwybdoaeth – does dim rhaid i chi fod ag unrhyw wybodaeth flaenorol ynghylch y rolau, etholiadau na hyd yn oed Undeb y Myfyrwyr, a does dim ymrwymiad i sefyll fel ymgeisydd drwy ddod i'r sesiwn. Yn wir, po fwyaf ansicr ydych chi, mwyaf o reswm sydd dros fynychu.

Cynhelir sesiynau Etholiadau'r UM: Sesiynau Gwybdoaeth trwy gydol y cyfnod sefyll ar gyfer Etholiadau'r Swyddogion yn Ionawr a Chwefror, gyda manylion llawn ar gael ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol Undeb y Myfyrwyr yn ystod yr wythnosau cynt.






# SESIWN RAGWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae hon yn rhan hanfodol o'r broses etholiadau mewn Undeb Myfyrwyr. Yn y sesiwn hon, byddwch yn cael yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â rheolau'r etholiad, gwybodaeth bellach ynglŷn â sut mae pleidleisio'n gweithio ac eglurdeb ynglŷn â chyhoeddusrwydd (gan gynnwys cyfyngiadau ar wariant). Mae hwn yn gyfle i holi cwestiynau a datrys unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall yn llwyr. Ni fyddwn yn dangos unrhyw drugaredd arbennig os ydych chi'n methu â mynychu'r sesiwn hon, ac wedyn yn camddehongli'r rheolau.

*Bydd ymgeiswyr ar gyfer rolau Cynrychiolwyr Academaidd a Phwyllgorau clybiau a chymdeithasau'n derbyn rhagwybodaeth ar-wahân trwy e-bost.*



# SUT I YMGEISIO

Unwaith y bydd y cyfnod sefyll wedi agor ar gyfer unrhyw un o'n hetholiadau, bydd gennych chi tan ddiwedd y cyfnod sefyll i ddweud wrthym a ydych am fod yn ymgeisydd ar gyfer rôl.

## I ymgeisio ar gyfer rôl:

1. Gallwch gyrchu'r ffurflen ar gyfer sefyll mewn etholiad yma www.umaber.co.uk/**etholiadau/ymgeisio**

2. Dewiswch enw defnyddiwr a chyfrinair cofiadwy i gofrestru eich 'Proffil Ymgeisydd'.

3. Cwblhewch yr adran 'Eich Manylion'.

4. Dewiswch y rolau rydych yn bwriadu ymgeisio amdanynt.

5. Cliciwch 'Submit' i gadarnhau eich cofrestriad.

Unwaith i chi gyflwyno hwn, byddwch wedi creu 'Proffil Ymgeisydd' y gallwch gael mynediad iddo a'i olygu. Bydd hwn yn agored ar gyfer newidiadau hyd at naill ai diwedd y cyfnod sefyll neu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyhoeddusrwydd, pan gaiff gwybodaeth gyhoeddusrwydd ei hanfon i'w chyfieithu.

## I gael mynediad i'ch 'Proffil Ymgeisydd' dilynwch y camau isod:

1. Gallwch gael mynediad i'ch proffil **ymgeisydd yn www.umaber.co.uk/etholiadau/hybetholiadau**

2. Mewnbynnwch eich enw-defnyddiwr a chyfrin-air cofiadwy

3. Uwchlwythwch neu diwygiwch eich testun cyhoeddusrwydd; mae hyn yn cynnwys ateb nifer o gwestiynau, gan ddibynnu ar ba rôl rydych chi'n sefyll ar ei chyfer, yn ogystal â pham y dylai myfyrwyr bleidleisio drosoch chi (crynodeb o 20 gair a fydd yn ymddangos ar y papur pleidleisio).

4. Cliciwch 'Submit' i gadarnhau eich newidiadau/diweddariadau.






## SUT MAE UNDEB Y MYFYRWYR YN GWEITHIO?

Mae Undeb y Myfyrwyr yn fudiad dan arweiniad myfyrwyr, felly yn y pen draw, chi'r myfyrwyr sy'n ei reoli. Caiff ei redeg gan gymysgedd o bobl, o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n cyfarwyddo blaenoriaethau'r Undeb, gan sicrhau ei fod yn cynrychioli ei aelodau'n effeithiol; i'r Senedd sy'n cwrdd pedair gwaith y flwyddyn ac yn cyfarwyddo gwaith yr Undeb, a'i swyddogion llawn-amser a gwirfoddol.

Y Cyfarfod Mawr yw'r prif gorff ar gyfer gwneud penderfyniadau, sef ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lle caiff yr holl fyfyrwyr wahoddiad i fod yn bresennol; eleni fe'i cynhelir yn ystod yr ail semester. Mae'r Undeb hefyd yn cyflogi tîm bach o staff sy'n gofalu am agweddau gweithredol o ddydd i ddydd ac yn cynorthwyo'r swyddogion myfyrwyr.

Am wybodaeth fanylach am weithdrefnau gweithredu a llywodraethu Undeb y Myfyrwyr, ewch i'r wefan **www.umaber.co.uk/ynglynagaber/printman**

## DWYIEITHRWYDD

Mae UMAber yn fudiad dwyieithog; golyga hyn fod angen i bob deunydd ymgyrchu ar gyfer etholiadau'r Swyddogion Llawn-amser a Gwirfoddol fod ar gael y Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd cyfieithydd allanol Undeb y Myfyrwyr yn darparu cyfieithiadau, a byddwn yn gwneud ein gorau i ddychwelyd eich testun o fewn dau ddiwrnod ar ôl derbyn eich cais.

I wneud cais am gyfieithu bydd angen i chi e-bostio eich cynnwys i **undeb.etholiadau@aber.ac.uk**

Sicrhewch eich bod chi'n nodi natur y cynnwys yn glir ar bob dogfen rydych chi'n ei hanfon h.y. slogan, gwybodaeth ar boster a.y.b.

Wrth anfon eich cais rhaid i chi ddweud wrthym:

- Eich enw
- Y rôl rydych chi'n sefyll amdani:
- Cyfanswm y geiriau








## CEFNOGAETH I LWYDDO

Pwy bynnag gaiff ei ethol, gallwn eich sicrhau na fyddwch ar eich pen eich hun. Byddwn yn sicrhau fod gennych y sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth i fod yn effeithiol wrth greu newid. Byddwch yn cael cefnogaeth gan amrywiaeth o staff yr Undeb ac UCM Cymru.

Bydd nifer o'r sgiliau y byddwch yn eu dysgu yn ystod eich blwyddyn yn y swydd yn caniatáu i chi addasu i bob math o wahanol rolau, gan agor cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Os ydych chi angen eich darbwyllo ymhellach, mae rhestr isod o'r sgiliau defnyddiol y byddwch chi'n eu datblygu fel swyddog:

- **Arweinyddiaeth**
- **Cydweithredu a rhwydweithio**
- **Ymgyrchu**
- **Siarad cyhoeddus**
- **Cynllunio a chyflawni strategaeth**
- **Sgiliau trefnu**
- **Cadeirio cyfarfodydd**
- **Sgiliau cyd-drafod**
- **Ysgrifennu adroddiadau**
- **Rheoli amser a blaenoriaethu**

Y peth pwysig i'w gofio fel swyddog yw bod eich cyfnod yn y swydd y hyn rydych chi'n wneud ohono. Os ydych chi am gael mwy o wybodaeth am y cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad sy'n perthyn i fod yn swyddog llawn-amser neu swyddog gwirfoddol, cysylltwch â ni drwy **undeb.etholiadau@aber.ac.uk**

## ROLAU SYDD AR GAEL

### ROLAU'R SWYDDOGION LLAWN-AMSER

Caiff 5 swyddog llawn-amser eu hethol a'u cyflogi am un flwyddyn y tu hwnt i'w hastudiaethau i wasanaethu fel arweinwyr gwleidyddol UMAber. Mae gan bob un ohonyn nhw ddyletswyddau penodol ar sail y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Gyda'i gilydd, nhw yw llais holl fyfyrwyr Aberystwyth, ac ar y cyd, maen nhw'n gyfrifol am hyrwyddo ac amddiffyn hawliau myfyrwyr, ymgyrchu ar faterion o bwys, hyrwyddo cyfranogiad yn yr Undeb a chydlynu parthau a grwpiau o fyfyrwyr.

Hefyd, fel swyddog llawn amser, byddwch chi'n ymddiriedolwr ac yn eistedd ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ogystal ag eistedd ar wahanol bwyllgorau rheoli'r Brifysgol i siarad ar ran myfyrwyr. Darperir hyfforddiant i bob swyddog etholedig, yn ogystal â chymorth ac arweiniad i gyflawni'r rôl a throi eu blaenoriaethau yn realiti.

*Etholir y rolau hyn yn Etholiadau'r Swyddogion a gynhelir rhwng Ionawr a Mawrth bob blwyddyn.*

### ROLAU SWYDDOGION GWIRFODDOL

Caiff swyddogion Gwirfoddol eu hethol bob blwyddyn, ond yn wahanol i'r Swyddogion Llawn-amser, maen nhw'n gweithredu eu dyletswyddau ynghyd â'u hastudiaethau. Mae gan bob Swyddog Gwirfoddol gyfrifoldeb penodol, a gall rhai ohonyn nhw gynrychioli grwpiau penodol o fyfyrwyr. Felly, dim ond myfyrwyr sy'n hunan-ddiffinio i'r grwpiau penodol hynny gaiff sefyll etholiadau'r rolau hyn neu bleidleisio ynddynt. Er enghraifft, dim ond rhywun sy'n hunan-ddiffinio fel myfyriwr anabl gaiff sefyll neu bleidleisio ar gyfer rôl Swyddog Myfyrwyr Anabl.

Rolau gwirfoddol yw'r rhain a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ynghyd â'u hastudiaethau. Darperir hyfforddiant i bob swyddog etholedig, yn ogystal â chymorth ac arweiniad i gyflawni'r rôl a throi eu blaenoriaethau yn realiti.

*Etholir y rolau hyn yn Etholiadau'r Swyddogion a gynhelir rhwng Ionawr a Mawrth bob blwyddyn gydag unrhyw swyddi gwag yn cael eu hethol yn yr is-etholiadau.*

### RHANNU SWYDD

Am y tro cyntaf eleni, bydd myfyrwyr yn gallu sefyll ar gyfer rôl fel swyddog gwirfoddol neu swyddog llawn-amser gydag un unigolyn arall. Bydd gan y pâr un bleidlais yn ystod cyfarfodydd a bydd angen iddyn nhw fod â pherthynas waith gref.

Am fyw o wybodaeth, cymerwch gip-olwg ar ein blog yma neu e-bostiwch undeb.etholiadau@aber.ac.uk




# ROLAU'R SWYDDOGION LLAWN-AMSER

## LLYWYDD

Y Llywydd yw llais cyhoeddus Undeb y Myfyrwyr a myfyrwyr Aberystwyth. Maen nhw'n gweithio gyda'r tîm Swyddogion llawn-amser drwy adolygu materion allweddol myfyrwyr yn rheolaidd, yn ogystal â sicrhau bod ymgyrchoedd cynrychioli a gwleidyddol yn cydweddu ag anghenion myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Nhw yw prif gynrychiolydd myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, gan eistedd ar wahanol uwch bwyllgorau a chyfarfod ag unigolion allweddol yn rheolaidd i sicrhau perthynas gref rhwng yr Undeb, y Brifysgol a'r gymuned yn ehangach. Hefyd, nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr Undeb yn cael ei gynrychioli ar lefel genedlaethol, drwy weithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer UCM ac UCM Cymru.

Fel Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, bydd yn gweithio'n agos â Phrif Weithredwr yr Undeb i sicrhau bod amcanion strategol yr Undeb yn cael eu gweithredu, bod polisïau'n cael eu cynnal a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n adlewyrchu gwerthoedd yr aelodau. Yn olaf, ef/hi yw wyneb cyhoeddus Undeb y Myfyrwyr ac mae'n gyfrifol am gyhoeddi datganiadau i'r wasg, cynnal cyfweliadau ac ymateb i unrhyw gwynion ac adborth gan aelodau. Mae'r rôl yn un heriol a buddiol ac mae pob diwrnod yn wahanol.

## SWYDDOG DIWYLLIANT CYMREIG a LLYWYDD UMCA

Y Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA yw llais myfyrwyr ar ran diwylliant Cymreig a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn Aberystwyth. Maen nhw'n sicrhau bod diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg yn cael eu cynrychioli ym Mhrifysgol Aberystwyth. Maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd ag unigolion allweddol ac adrannau perthnasol i hyrwyddo anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

Mae hyn yn cynnwys cydlynu ystod o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd, er mwyn sicrhau bod buddiannau siaradwyr Cymraeg yn cael sylw ac yn cael eu hybu. Mae digon i'w wneud yn y rôl hon drwy'r amser, o drefnu gwersi Cymraeg, ymgyrchu a hyrwyddo'r iaith, i sicrhau bod polisiau dwyieithrwydd yn gyfoes.

Fel Llywydd UMCA, mae disgwyl i chi amddiffyn ac ymgyrchu dros hawliau myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a dysgwyr yn y Brifysgol, yn ogystal ag arwain llawer o ddigwyddiadau rheolaidd UMCA a gynhelir gydol y flwyddyn, o Wythnos y Glas i Wythnos Nefi Blŵ.

## SWYDDOG CYFLEOEDD MYFYRWYR

Y Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr yw llais myfyrwyr ar gyfer chwaraeon, cymdeithasau a chyfleoedd gwirfoddoli. Maen nhw'n sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar faterion sy'n ymwneud â chwaraeon, cymdeithasau a gwirfoddoli o fewn yr Undeb a'r Brifysgol. Maen nhw'n cysylltu'n rheolaidd â phwyllgorau'r clybiau a chymdeithasau, er mwyn deall barn ac anghenion myfyrwyr yn well.

Gan weithio gyda staff, maen nhw'n helpu i gydlynu ystod o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd a fwriadwyd i gynyddu cyfranogiad a sicrhau eu bod yn weithgareddau ffyniannus dan arweiniad myfyrwyr yn yr Undeb. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cadeirio'r Parthau Chwaraeon a Chymdeithasau, helpu i gynnal Wythnos RhagLas, Mis RAG, y Rhyngolgampau, Superteams a Rygbi 7 Bob Ochr Aber.

Yn olaf, maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd ag unigolion allweddol ac adrannau perthnasol i hybu datblygiad clybiau, cymdeithasau a gwirfoddoli ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## SWYDDOG MATERION ACADEMAIDD

Y Swyddog Materion Academaidd yw llais myfyrwyr ar gyfer pob mater academaidd. Maen nhw'n sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar faterion sy'n perthyn i astudiaethau academaidd, gan gynnwys buddiannau myfyrwyr rhyngwladol ac ôl-radd; hefyd meysydd megis ehangu cyfranogiad, asesu ac adborth neu ddysgu ac addysgu. Maen nhw'n cysylltu'n rheolaidd â Chynrychiolwyr Academaidd a Chynrychiolwyr Athrofa, boed hynny'n wyneb yn wyneb, drwy e-bost neu ar gyfryngau cymdeithasol, er mwyn deall barn ac anghenion myfyrwyr yn well.

Gan weithio gyda staff, maen nhw'n helpu i gydlynu amryw o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd a fwriadwyd i ennyn diddordeb myfyrwyr yn eu profiad academaidd a'u gwella.

Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys cadeirio'r Parth Llesiant, helpu i drefnu Ffair Dai a Llety'r Undeb, cynrychioli buddiannau myfyrwyr i wahanol grwpiau, o'r bwrdd iechyd lleol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn bwysicach oll, lobïo'r Brifysgol i newid pethau mae'n credu sy'n bwysig i fyfyrwyr.

Nhw hefyd sy'n arwain ar bopeth sy'n ymwneud â rhyddhad, ac maen nhw'n cynorhwyo ymgyrchoedd megis Mis Hanes Croenddu a Mis Hanes LHDTC+.

Yn olaf, mae ganddo/i rôl yn strwythurau rheolaeth y Brifysgol ac mae'n eistedd ar amryw o bwyllgorau ac yn cyfarfod ag unigolion allweddol ac adrannau perthnasol i hyrwyddo'r profiad academaidd.

## SWYDDOG LLESIANT

Y Swyddog Llesiant Myfyrwyr yw'r llais ar gyfer llesiant a rhyddhad myfyrwyr. Maen nhw'n sicrhau cynrychiolaeth ar faterion sy'n perthyn i lesiant myfyrwyr, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr, lles, cydraddoldeb ac amrywioldeb. Mae'r rôl yn ymdrin ag ystod eang o faterion, gan gynnwys llety a chymorth ariannol, yn ogystal ag iechyd meddwl a chorfforol. Mae'n datblygu rhwydwaith o gysylltiadau rheolaidd, gan gynnwys y swyddogion rhan amser, cymdeithasau a chysylltiadau allweddol yn y Brifysgol ac yn y gymuned leol.

Gan weithio gyda staff, mae'n helpu i gydlynu amryw o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd a fwriadwyd i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cymorth yn ystod eu hastudiaethau wrth wella'u llesiant. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys cadeirio'r Parth Llesiant, helpu i drefnu Ffair Dai a Llety'r Undeb, cynrychioli buddiannau myfyrwyr i wahanol grwpiau, o'r bwrdd iechyd lleol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn bwysicach oll, lobïo'r Brifysgol i newid pethau mae'n credu sy'n bwysig i fyfyrwyr.

Yn olaf, maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd ag unigolion allweddol, adrannau perthnasol a chymdeithasau cymunedol i hybu datblygiad llesiant myfyrwyr ymhellach.



# ROLAU SWYDDOGION GWIRFODDOL

## CADEIRYDD YR UNDEB

Mae Cadeirydd yr Undeb yn gyfrifol am gynnal Cyngor yr Undeb. Gan weithio gyda swyddogion eraill, mae'n mynd ati i hyrwyddo cyfarfodydd y Cyngor ac yn sicrhau bod y trafodaethau'n deg, yn agored a bod pob penderfyniad a wneir yn dryloyw ac yn ddemocrataidd.

## SWYDDOG YR IAITH GYMRAEG

Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg yn cynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar y campws, gan sicrhau bod y Gymraeg wrth galon yr Undeb. Gan weithio gyda swyddogion a mudiadau eraill, mae'n ymgyrchu ar faterion sy'n perthyn i ddiwylliant y Gymraeg ac yn sicrhau bod barn myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu hystyried.

## SWYDDOG YR AMGYLCHEDD A CHYNALADWYEDD

Mae Swyddog yr Amgylchedd a Chynaladwyedd yn cynrychioli myfyrwyr ac yn ymgyrchu ar faterion sy'n perthyn i'r amgylchedd a datblygiad cynaliadwy. Gan weithio gyda swyddogion, mudiadau a myfyrwyr eraill, mae'n sicrhau bod yr Undeb a'r Brifysgol yn gwella effaith amgylcheddol eu gwaith.

## SWYDDOG Y MYFYRWYR LHDTC+

Yn cynrychioli myfyrwyr sy'n diffinio unrhyw le ar sbectrwm LHDTC+, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws, cwîar neu'n cwestiynu.

## SWYDDOG Y MENYWOD

Yn cynrychioli myfyrwyr sy'n hunan-ddiffinio fel menywod.

## SWYDDOG Y MYFYRWYR ANABL

Yn cynrychioli myfyrwyr ag anableddau.

## SWYDDOG Y MYFYRWYR CROENDDU, ASIAIDD A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG

Yn cynrychioli myfyrwyr sy'n hunan-ddiffinio fel croenddu, Asiaidd neu'n perthyn i leiafrifoedd ethnig

## SWYDDOG Y MYFYRWYR RHYNGWLADOL

Yn cynrychioli myfyrwyr sy'n tarddu o wlad y tu allan i'r DU.



## SWYDDOG Y MYFYRWYR ANNIBYNNOL

Yn cynrychioli myfyrwyr annibynnol gan gynnwys y rheiny sy'n gadael gofal, myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio, ffoaduriaid, gofalwyr ifanc a rhieni mewn addysg.

## SWYDDOG Y MYFYRWYR HŶN

Yn cynrychioli myfyrwyr sydd wedi cofrestru yn y brifysgol, ond sydd ddim wedi ymadael â'r ysgol yn ddiweddar, fel arfer pobl dros 21 oed.

## SWYDDOG Y MYFYRWYR ÔL-RADDEDIG

Yn cynrychioli myfyrwyr ar gyrsiau Ôl-radd.

## SWYDDOG MYFYRWYR TRAWS AC O RYWEDD ANGHYDFFURFIOL

Represents students who self identify as Transgender or Gender Non-Conforming



Mae'r Swyddogion Gwirfoddol yn cynrychioli grwpiau penodol o fyfyrwyr. Boed hynny trwy redeg ymgyrchoedd, cynnig cymorth i fyfyrwyr a gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth, maen nhw'n gweithio gyda Swyddogion eraill i sicrhau bod anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr yn cael eu diwallu, yn ogystal ag amddiffyn ac ymestyn cydraddoldeb ar gyfer pob myfyriwr sy'n hunan-ddiffinio neu'n uniaethu â'r rôl.

Mae enghreifftiau o gyfleoedd ar gyfer swyddogion gwirfoddol yn cynnwys ysgrifennu blogiau, mynychu cynadleddau sy'n berthnasol i'w rolau ac ymgysylltu â'r myfyrwyr maen nhw'n eu cynrychioli

# SWYDDOGION CYFADRAN

**CYFADRAN Y CELFYDDYDAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL (IR ac ÔR)=**

**CYFADRAN BUSNES A GWYDDORAU FFISEGOL (IR ac ÔR)**

**CYFADRAN GWYDDORAU'R DDAEAR A BYWYD (IR ac ÔR)**

Swyddogion Cyfadran yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer adborth ar lefel cyfadran.

Maen nhw'n gweithio gyda'r Swyddog Materion Academaidd i gynrychioli myfyrwyr i'r Brifysgol drwy eistedd gyda nhw ar wahanol bwyllgorau a mynychu'r Parth Academaidd. Maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd â Chynrychiolwyr Academaidd a staff allweddol yn eu cyfadran er mwyn darparu adborth ac ymateb iddo.





# CYNRYCHIOLWYR I GYNADLEDDAU UCM

Mae Cynrychiolwyr i Gynadleddau Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) yn cynrychioli myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Gall cynrychiolwyr gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar ein rhan i benderfynu ar bolisi cenedlaethol ac ethol cynrychiolwyr cenedlaethol.

Mae UMAber yn anfon cynrychiolwyr i 3 gwahanol gynhadledd:

- Cynhadledd Genedlaethol UCM
- Cynhadledd UCM Cymru
- Cynhadledd Ryddhad UCM

Mae'r cynadleddau hyn yn gyfle gwych ar gyfer rheydweithio, a chânt eu cynnal ar-lein tan y byddwch yn clywed yn wahanol. Maen nhw'n digwydd yn y Gwanwyn fel arfer, ac am fwy o wybodaeth ewch i'w gwefan yma.

Yr ymrwymiad amser sy'n ofynnol yw cyfnod y gynhadledd (gan gynnwys amser teithio i'r lleoliad ac yn ôl os oes angen) yn ogystal â briffio cyn y digwyddiad a darparu adborth yn dilyn y gynhadledd. Mae Undeb y Myfyrwyr yn talu ffioedd cofrestru ar gyfer y gynhadledd, yn ogystal â chostau llety a theithio ar ran pob cynrychiolydd.

# Senedd Representation

we have  elected to vote on policy ideas to benefit students. They have 4 meetings a year (including the AGM) where attendance is compulsory.
Roles available are:

- 5 Sport Representatives
- 5 Society Representatives
- 1 Volunteer Project Representative
- 2 Academic Reps (1X Undergraduate and 1X Postgraduate)
- 12 Volunteer Officers
- 3 Faculty Officers
- 5 Full Time Officers

We also elect our Deputy Chair from the Senedd Members during the first meeting of the year.

# RHEOLAU a CHANLLAWIAU'R ETHOLIAD

Mae'r broses ar gyfer sefyll yn yr etholiadau wedi'i chynnwys yn y canllaw hwn ar gyfer Ymgeiswyr, ynghyd â manylion y broses etholiadau. Dim ond ceisiadau a gwblheir gan ddefnyddio'r broses hon ac o fewn y terfyn amser penodol gaiff eu derbyn.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ymddwyn mewn modd teg a rhesymol yn ogystal ag ymgyrchu'n gadarnhaol sy'n helpu myfyrwyr i bleidleisio.

Ni chredwn fod rheolau cyfyngedig yn helpu'r broses etholiadol i annog myfyrwyr i drafod eu profiad yn y dyfodol neu eu helpu i bleidleisio. O'r herwydd, rydym yn gweithio i sicrhau bod ein rheolau mor syml â phosib. Disgwylir i'r ymgeiswyr sicrhau eu bod nhw a'u tîm yn cefnogi hyn.

Gellir dod o hyd i ddogfen sy'n egluro'r rheolau cyn dechrau'r ymgyrch yn **www.umaber.co.uk/etholiadau/hybetholiadau.**






# CWYNION

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â sut caiff ymgyrchoedd eu cynnal, dylai fod gennych dystiolaeth y bydd yn effeithio ar ganlyniad y bleidlais. Os ydych chi am wneud cwyn ynglŷn â'r etholiadau. Rhaid defnyddio'r broses ganlynol:

Cyn gynted ag y bo modd, dylech lunio crynodeb o'r mater gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd i'w gweld yn **www.umaber.co.uk/etholiadau/hybetholiadau.**

Rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen i ddweud wrthym ni:

- **Pwy ydych chi**
- **Beth yw eich cwyn (rhowch fanylion ynglŷn â pha reol sydd wedi cael ei thorri, os yw hynny'n bosib)**
- **Y dystiolaeth sydd gennych chi bod rheol wedi ei thorri**
- **Pa ganlyniad hoffech chi ei weld?**

Bydd y Swyddog Etholiadau/Dirprwy Swyddog Etholiadau'n ystyried eich cwyn a gall ymgynghori ag eraill er mwyn gwneud penderfyniad. Byddwch yn derbyn e-bost gyda manylion eu penderfyniad. Caiff hyn ei wneud cynted â phosib, ond gall achosion mwy cymhleth gymryd amser i'w harchwilio.

Os ydych chi o'r farn na ddilynwyd rheolau'r etholiad, bod tystiolaeth newydd ar gael neu os ydych chi'n credu bod y Swyddog Etholiadau/Dirprwy Swyddog Etholiadau wedi dangos rhagfarn neu duedd, gallwch gyflwyno apêl i bwyllgor apeliadau penodol. Rhaid gwneud apêl erbyn 12pm fan pellaf ar y diwrnod ar ôl i benderfyniad y Swyddog Etholiadau/Dirprwy Swyddog Etholiadau gael ei gyfathrebu. Dylech lunio crynodeb o'r apêl mewn e-bost a'i anfon **at undeb.etholiadau@aber.ac.uk. Dylech** gynnwys eich rheswm dros apelio, pa dystiolaeth newydd sydd gennych a pha ganlyniad hoffech chi ei weld. Mae unrhyw benderfyniadau gan y panel Apeliadau yn derfynol ac ni ellir apelio yn ei erbyn.

Dylid gwneud unrhyw gŵyn gynted â phosib wedi'r digwyddiad. Bydd yn anodd iawn beirniadu cwynion a wnaed ar ôl cyfnod hir. Mewn unrhyw achos, caiff cwynion ond eu derbyn hyd at awr ar ôl i'r pleidleisio gau.

# PLEIDLEISIO

Mae UMAber yn defnyddio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (PSD) i ethol ein cynrychiolwyr myfyrwyr. Yn y bôn, mae hyn yn golygu bod gan bob pleidleisiwr gyfle i restru'r ymgeiswyr yn ôl trefn hoffter – byddant yn nodi rhifau yn hytrach na marc.

Rhaid i ymgeisydd buddugol dderbyn nifer penodol o bleidleisiau (cwota) i gael ei ethol, fydd yn newid gan ddibynnu ar y nifer o bleidleisiau a fwriwyd. Yn ein barn ni, dyma'r dull tecaf gan fod rhaid i'r ymgeiswyr gael cefnogaeth eang er mwyn ennill.

Mae pob etholiad yn cynnwys AAE (Ail-agor Enwebiadau) sy'n caniatáu i fyfyrwyr fwrw pleidlais bositif, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cytuno â pholisïau unrhyw un o'r ymgeiswyr sy'n sefyll. Serch hynny, byddem yn annog myfyrwyr i ddefnyddio'r opsiwn yma'n ofalus, gan y gallai adael y rôl yn wag hyd nes caiff etholiad arall ei drefnu.

Mae tystiolaeth o Aberystwyth a phrofiadau undebau myfyrwyr eraill yn awgrymu'n gryf y caiff nifer y myfyrwyr sy'n pleidleisio mewn etholiad ei ddylanwadu'n gryf gan sut mae'r ymgeiswyr yn siarad â'r pleidleiswyr ac yn eu hannog i bleidleisio.

Cofiwch, i lawer o fyfyrwyr mae'r weithred o bleidleisio'n rhywbeth rydym yn ei wneud unwaith neu ddwy'r flwyddyn, hyd yn oed i'r rheiny ohonom sy'n ei wneud yn 'rheolaidd' - ystyriwch sut mae hyn yn effeithio ar annog myfyrwyr i bleidleisio.

Bydd myfyrwyr yn derbyn dolen bleidleisio unigryw drwy E-bost y Brifysgol er mwyn gallu pleidleisio; rydym hefyd yn gweithio gyda'r Brifysgol fel bod y ddolen hon yn dangos wrth i chi fewngofnodi i ApAber.

Os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau wrth geisio pleidleisio, e-bostiwch **undeb.etholiadau@aber.ac.uk**

Caiff gwybodaeth bellach ynglŷn â phleidleisio ei rhyddhau yn y Rhagwybodaeth i Ymgeiswyr.




# CANLYNIADAU

Caiff Canlyniadau'r Etholiadau eu e-bostio i'r ymgeiswyr a'u gosod ar wefan Undeb y Myfyrwyr a chyfryngau cymdeithasol pan fyddant yn cael eu cyhoeddi, fel arfer am 6pm ar y diwrnod mae'r pleidleisio'n dod i ben.

Etholiadau'r Swyddogion ym mis Mawrth yw'r unig etholiadau lle caiff canlyniadau eu cyhoeddi'n bersonol yn hytrach nag ar-lein. Mae hwn fel arfer yn ddigwyddiad uchel ei broffil lle mae ymgeiswyr, timau ymgyrchu a ffrindiau'n dod i ddathlu, gyda manylion llawn ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr a thudalennau digwyddiadau'r cyfryngau cymdeithasol yn yr wythnosau cyn y digwyddiad ei hun.

Wrth i'r etholiadau fynd rhagddynt, byddwn yn cadw'r ymgeiswyr yn gyfoes â'r wybodaeth ddiweddaraf lle bo hynny'n berthnasol.



# BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL YR ETHOLIAD?

## SWYDDOGION LLAWN-AMSER

Bydd pob swyddog etholedig yn dechrau ar eu blwyddyn yn y rôl ar 1af Gorffennaf 2021. **RHAID i Swyddogion Llawn-amser fod ar gael i fynychu hyfforddiant rhwng canol Mai a chanol Mehefin ac mae'n** bosib y cânt eu gwahodd i ymgyfarwyddo â'u rôl newydd a chwrdd ag unigolion allweddol. O'r herwydd, rydym yn argymell eich bod ar gael o ganol Mai ymlaen.

Rhwng canol Gorffennaf a dechrau Awst, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi cenedlaethol, ac rydym yn argymell yn gryf eich bod yn mynychu'r rhai sy'n berthnasol i'ch rôl. Ac wrth gwrs, mae'r flwyddyn academaidd fel arfer yn dechrau rhwng canol a diwedd Medi, pan fydd myfyrwyr newydd yn dechrau cyrraedd y campws, a bydd gwahanol ddigwyddiadau'n cael eu cynnal tan ddechrau mis Hydref.

Rydym felly'n argymell eich bod yn ystyried yr uchod i gyd pan fyddwch chi'n trefnu gwyliau, a dylech fod yn ymwybodol o'r effaith ddifrifol y gallai cymryd gwyliau yn ystod y cyfnod hwn ei chael ar eich gallu i sicrhau'r canlyniad rydych chi am ei gyflawni. Cofiwch, allwch chi byth gael yr amser hwn yn ôl! Os oes gennych chi unrhyw anghenion mynediad neu gyfrifoldebau gofalu y credwch y dylid eu hystyried, yna rydyn ni'n ddigon bodlon eu trafod nhw gyda chi, er mwyn eich cynorthwyo i ymgymryd â'r rôl.

## SWYDDOGION GWIRFODDOL

Rydym yn sylweddoli y bydd llawr ohonoch, os nad pawb, yn awyddus i gael seibiant o fywyd y brifysgol dros yr haf a/neu weithio i gynnal eich astudiaethau. Serch hynny, os nad ydyn ni'n cwrdd â chi cyn tan ddechrau'r tymor, ni fyddwch yn gallu cael y gorau allan o'ch blwyddyn. Am y rheswm hwn, byddwn yn gofyn i chi fynychu digwyddiadau cyn dechrau'r tymor ym Medi er mwyn gweithio ar annog a datblygu eich syniadau.

Yn achos y Swyddogion Gwirfoddol hynny a etholir yn Is-Etholiadau'r Hydref, byddwn yn trefnu amser i gwrdd yn fuan ar ôl yr etholiad er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cadw'n gyfoes o ran unrhyw beth y gallan nhw fod wedi'i fethu o bosib.

# SEFWCH!

**Sefwch ar-lein yn www.umaber.co.uk/etholiadau**

Dyma'r unig ffordd i sefyll am rôl.

Dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau i **undeb.etholiadau@aber.ac.uk**

PRIF GYSYLLTYDD:

Jacob Webb
Dirprwy Swyddog Etholiadau
jaw151@aber.ac.uk
Ash Sturrock
Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth
ais13@aber.ac.uk